**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 1314 (Cy.139)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn dileu'r cyfeiriad at therapyddion lleferydd o'r diffiniad o "proffesiynolyn gofal iechyd" yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod therapyddion lleferydd bellach yn rhan o broffesiwn therapyddion lleferydd ac iaith, y mae adran 60(2) o Ddeddf Iechyd 1999 yn ymdrin ag ef fel proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio drwy Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (O.S. 2002 Rhif 254).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 1314 (W.139)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Care Homes (Wales) (Amendment) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These amending Regulations remove the reference to speech therapists from the definition of "health care professional" in the Care Homes (Wales) Regulations 2002. This reflects the fact that speech therapists are now part of the profession of speech and language therapists, which is covered by section 60(2) of the Health Act 1999 as a profession regulated by the Health Professions Order 2001 (S.I. 2002 No.254).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 1314 (Cy.139)

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *11 Mai 2004* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 22(1) a (2)(d) ac adran 118(7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**a**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002**

**2**. Yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**b**) (dehongli), yn y diffiniad o "proffesiynolyn gofal iechyd", yn lle ", yn seicotherapydd plant neu'n therapydd lleferydd" rhowch "neu'n seicotherapydd plant ".

(a) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol (*gweler* y diffiniad o "rheoliadau" yn adran 121(1) o Ddeddf 2000). Mae "Gweinidog priodol" wedi'i ddiffinio yn adran 121(1) fel y Cynulliad o ran Cymru, ac fel yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae "Cynulliad" wedi'i ddiffinio yn adran 5(b) fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(b) O.S. 2002/324 (Cy.37), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2622 (Cy.254), O.S. 2002/2935 (Cy.277), O.S. 2003/947 (Cy.128) ac O.S. 2003/1004 (Cy.144).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 1314 (W.139)

## SOCIAL CARE, WALES

## The Care Homes (Wales) (Amendment) Regulations 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *11th May 2004* |
| *Coming into force* | *31st May 2004* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by section 22(1) and (2)(d) and section 118(7) of the Care Standards Act 2000(**a**), hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Care Homes (Wales) (Amendment) Regulations 2004 and shall come into force on 31st May 2004.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of the Care Homes (Wales) Regulations 2002**

**2**. In Regulation 2(1) of the Care Homes (Wales) Regulations 2002(**b**) (interpretation), in the definition of "health care professional", for ", child psychotherapist or speech therapist" there is substituted "or child psychotherapist".

(a) 2000 c.14. The powers are exercisable by the appropriate Minister (*see* the definition of "regulations" in section 121(1) of the 2000 Act). The "appropriate Minister" is defined in section 121(1) as the Assembly in relation to Wales, and as the Secretary of State in relation to England, Scotland and Northern Ireland. The "Assembly" is defined in section 5(b) as the National Assembly for Wales.

(b) S.I. 2002/324 (W.37), as amended by S.I. 2002/2622 (W.254), S.I. 2002/2935 (W.277), S.I. 2003/947 (W.128) and S.I. 2003/1004 (W.144).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

11 Mai 2004

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

11th May 2004

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 1314 (Cy.139)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 1314 (W.139)

# SOCIAL CARE, WALES

The Care Homes (Wales) (Amendment) Regulations 2004

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090942-9

9 780110 909424

**£3.00**

W59/05/04 ON